

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 9fed Ragfyr 2019

Presennol, Gareth Wynne Cadeirydd, Gwawr Jones, Neil Pringle, Nick Corney, Barbara Drake, Cyng Elisabeth Roberts, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau – Dyfed Jones, Janet Charlton.

Datgan diddordeb - Datganwyd diddordeb gan Barbara Drake yng nghofnod [1.7] Penderfynwyd nad oedd y diddordeb yn rhagfarnu ar y mater dan sylw.

Cofnodion – Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 11eg Dachwedd 2019

Aelod Newydd Croesawyd Mrs Barbara Drake, Ty'n-y-Fron, Lon Muriau, Betws-y-Coed yn aelod cyfethol o'r Cyngor Cymuned.

Materion yn codi

(1)Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol

[1.1] Pont Droed yn uwch i fyny'r afon o Bont-y-Pair.

Dywedodd y clerc fod cyfarfod ar y safle yn cael ei drefnu.

[1.2] Rheolaeth Cae Llan

Penderfynwyd gohirio'r mater hyd i gyfarfod y Cyngor ym mis Ionawr.

[1.3] Colofn Golau Ffordd yr Orsaf

Nodwyd bod y golofn olau o'r diwedd wedi cael sylw, a bod y goleuadau yn y maes parcio wedi ei uwchraddio i LED.

[1.4] Siop Sglodion/Sbwriel

Dywedodd y Cyng. Elisabeth Roberts fod adran yr amgylchedd y Cyngor Sir yn archwilio'r mater.

[1.5] Gwelliannau/Mynwent Erw Hedd

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.6] Cyngor BS Conwy Gwasanaethau Cynaliadwy

Eglurodd y clerc fod cyfarfod pellach yn cael ei drefnu gyda Mr Steven Teale Cyngor BS Conwy.

Y brif Agenda

[1.7] Materion Cynllunio

Gosod 4 pod i ymwelwyr ynghyd a llefydd parcio

Gwesty Craig y Dderwen, Betws-y-Coed

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod.

[1.8] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddsbarthwyd] a wnaed yn ystod mis Tachwedd 2019

[b] Y Rhaeadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Tachwedd 2019.

[1.9] Ffibr Rhwydwaith Lleol Llawn

Nodwyd bod Cyngor BS Conwy wedi cynnwys y Cyngor Cymuned yn awdurdod fydd efallai yn manteisio o'r fenter.

Bydd rhaid i Openreach wneud archwiliad o'r safle yn y lle cyntaf

[2] Sgouts

Cyfeiriodd y clerch at ymholiad gan y sgouts yn ceisio safle neu adeilad gwag ar gyfer cynnal ei cyfarfodydd ayb. Y clerch i anfon yr ymholiad ymlaen i Ystad Gwydyr i geisio ei sylwadau.

[2.1] Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus

Nodwyd bod Cyngor BS Conwy yn bwriadu tynnu'r arwyddion sydd yn rhybuddio ynglŷn â'r is ddeddf yn Pont-y-Pair oherwydd nad oedd adnoddau bellach i orfodi'r ddeddf. Penderfynwyd y dylai'r arwyddion aros yn ei lle, gan y byddent yn parhau i rybuddio rhag troseddu.

Cadeirydd _____